



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 69  
HYDREF 2014

### DATHLU DEUGAIN MLWYDDIANT GWEINIDOGAETH Y PARCHEDIG PETER M THOMAS

Hyfrydwch ar brynhawn Sul, 26ain Medi oedd dathlu 40 mlwyddiant gweinidogaeth y Parchedig Peter Thomas, gweinidog anrhydeddus Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch. Cawsom oedfa hynod fendithiol yng nghwmni Peter, Meryl ac Owain a braf oedd cael croesawu ei frawd Huw a'i deulu atom i rannu yn y digwyddiad arbennig hwn. Bu'n gyfle i ddwyn atgofion drwy gyfrwng cyflwyniad ar y sgrîn ac i wrando ar Peter yn cyhoeddi'r Gair. Yn dilyn yr oedfa cawsom gyfle i gymdeithasu dros banded a chacen a baratowyd ar gyfer yr achlysur. Diolch i bawb a gyfrannodd ym mhob ffordd tuag at yr achlysur cofiadwy hwn.

Yn fuan wedyn, derbyniais y neges ganlynol gan Peter yn gofyn imi gyfleu ei werthfawrogiad ef a'r teulu am y trefniadau. Meddai Peter:

*'Rwyf am ddiolch o galon am yr oedfa ddathlu yn Horeb prynhawn ddoe, am y paratoi gofalus, y cyflwyniad DVD gwefreiddiol a'r cyfarchion cynnes ac am gael pregethu yn Horeb unwaith eto. A fyddet garediced a chyflwyno fy niolch cywiraf i aelodau Horeb a Bethel am y trefniant. Fe wnaethom ni gyd fwynhau'r profiad yn fawr ac yr oedd cwrdd a sgwrsio gyda chymaint ohonoch wedi'r oedfa yn bleser pur. Mi fyddwn yn cofio'n hir am y digwydd ac yn diolch am y rhoddion arbennig a gawsom i nodi'r achlysur.'*

Cyfansoddwyd yr englyn isod gan y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan i ddathlu'r achlysur ac fe'i cyflwynwyd i Peter yn ystod yr oedfa:

O, fy Mhedr, gwn heb edrych - yn fy ôl  
dy fod yno'n fynych  
i mi'n gefn, a'th gwmni gwych  
yn Ei enw rwy'n chwennych.

Gwenallt Llwyd Ifan

Llongyfarchiadau gwresocaf iti, Peter, ar gyflawni gweinidogaeth hynod gyfoethog a diolch am y cyfle i rannu gyda thi yn y dathlu. Dymunwn fendith Duw arnat, ac ar Meryl a'r teulu i'r dyfodol.

**Pob bendith**

**Judith**

**Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)**

## CALENDR MIS Hydref 2014

Cyhoeddwr y Mis: Richard Wyn Davies	Organydd y Mis : Ceris Gruffudd	
5 Hydref 10.30yb 2.30yp	Ysgol Sul dan ofal Ceri Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue
12 Hydref 10.30yb	Oedfa Deuluol: Gweinidog	
19 Hydref 10.30yb 2.30yp 6.00yh	Ysgol Sul Oedfa Bregeth: Gweinidog Cyrrddau Pregethu Bethel a Seion yn Seion. Pregethir gan y Dr Hefin Jones, Caerdydd.	
26 Hydref 2.30yp	Ymuno â Bethel ar gyfer Oedfa Arbennig i Ailgysegru'r Organ Bib.	
2 Tachwedd 2.30yp	Oedfa Gymun : Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Richard a Gwenan

### I'ch Dyddiadur

6 Hydref: Cinio Bara Caws yn Eglwys San Paul (Eglwys y Santes Gwenffrewi yn gyfrifol am drefnu). 12.00-1.30yp

8 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

15 Hydref: Cymdeithas y Penrhyn am 7.30yh yng nghwmni Aneurin a Terwyn Davies

22 Hydref: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp

28 Hydref: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp

29-30 Hydref: Clwb Hanner Tymor

3 Tachwedd: Noson Agoriadol Arddangosfa'r Rhyfel Byd Cyntaf, Neuadd Rhydypennau am 7yh

4 Tachwedd: Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn Nasareth, Hendygywyn-ardaf.

19 Tachwedd: Cymdeithas Bethel yn cyfarfod yn Horeb am 2.30yp. Cawn gyfle i weld y ffilm a greodd William i ddatlu gweinidogaeth Peter ac fe ddaw Zoe Glynne Jones, Gweithiwr Ieuenctid Menter Gobaith atom i siarad am ei thaith i Uganda yn ystod yr haf eleni. Croeso cynnes i bawb.

### Lloffion

Dymuniadau gorau i Mona sydd yn yr ysbyty.

Dymuniadag gorau i Merfyn sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

Llongyfarchiadau i Mair, Mairwen, Sue a Ceris am baratoi *Fy Newis I* ar Radio Cymru yn ystod mis Awst.

**Clwb Plant Hanner Tymor:** Cynhelir Clwb Plant Hanner Tymor ar ddydd Mercher a dydd Iau, 29 a 30 Hydref yn festri Horeb o 10.00yb tan 1.00yp. Croeso cynnes i blant ysgol gynradd 5 mlwydd oed i fyny. Ceir rhagor o fanylion gan y Gweinidog.

**Apêl Chad:** Mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi lansio apêl arbennig i gefnogi adnewyddu ward mamolaeth mewn ysbyty yn Chad, sef un o'r gwledydd mwyaf peryglus yn y byd i eni plentyn. Mae merched yno yn 120 gwaith mwy tebygol o farw wrth esgor, na merched yn y wlad hon. Byddwn yn cynnal oedfa i ddysgu mwy am yr apêl a'r ysbyty yn Chad yn gynnar y flwyddyn nesaf pan wneir casgliad arbennig i gefnogi'r achos hwn.

**Rhaglenni Cymanfa Ganu:** Mae rhaglenni 2015 ar gael gan Ceris – pris £1.35.

**Gair y Dydd:** Pe hoffech dderbyn copi o Gair y Dydd, deunydd defosiwn dyddiol ar gyfer 2015, cysylltwch â Ceris cyn diwedd y mis os gwelwch yn dda. Pris am y flwyddyn: £7